# Tasg 1

(Estynnol, sbardun 3)

**TASGAU SIARAD AC YSGRIFENNU**

**Trafod**

1. Oes llawer o siopau'r stryd fawr wedi cau yn eich tref leol chi? Sut mae hynny wedi newid y stryd fawr?

2. Faint o siopau elusen sydd yn eich tref leol chi? Oes gormod neu ddim digon? Pam rydych chi'n credu hyn?

3. Ble rydych chi'n siopa dillad fel arfer? Ydych chi'n siopa ar y we?
   Rhowch fanteision ac anfanteision
   - siopa mewn siop dillad ffasiynol ar y stryd fawr
   - siopa ar y we
   - siopa mewn siop elusen

**Ysgrifennu**

1. Ysgrifennwch frawddegau sy'n cynnwys y geiriau hyn:
   - llwyddo (**i** wneud rhywbeth)
   - safleoedd tirlenwi
   - ffasiynol
   - crocbris
   - bargen
   - yn werth yr ymdrech

2. Ysgrifennwch ddarn sydd wedi'i seilio ar **un siop elusen** yn eich ardal chi. Gall fod:
   - yn **adolygiad** sy'n rhoi eich barn am y siop

     **syniadau**:
     - y dewis o nwyddau a sut maen nhw wedi cael eu trefnu
     - maint y siop
     - cyfleusterau newid
     - y staff, ac ati.
   - yn **gyfweliad** â rhywun sy'n gweithio yno

     **syniadau:**
     - ers pryd maen nhw'n gweithio/gwirfoddoli yno
     - pam penderfynon nhw weithio neu wirfoddoli
     - pa fudd maen nhw'n ei gael o weithio yn y siop
     - unrhyw droeon trwstan neu storïau diddorol am nwyddau
   - yn **stori** sydd wedi'i seilio yn y siop

     **syniadau:**
     - **hunangofiant** dilledyn sydd yn y siop
     - stori am rywun yn dod o hyd i rywbeth arbennig mewn siop (e.e. rhywbeth oedd yn perthyn i'r teulu ond a oedd wedi'i golli; llyfr prin...)

3. Ysgrifennwch lythyr byr i'r papur bro lleol i **ganmol/gwyno am** y siopau elusen yn eich ardal chi.